**Powys County Council**
**Councillor's Annual Report**

This report gives details of the Councillor's key activities over the year ending 12 May, 2021. It is provided for the information of all constituents and for no other purpose.

| | |
|---|---|
| **Councillor:** Jake Berriman | **Tel:** 01597851776 |
| **Ward:** Llandrindod North | **Mobile:** 07539222968 |
| **Shire:** Radnorshire | **Email:** cllr.jake.berriman@powys.gov.uk |
| **Group:** Welsh Liberal Democrats | **Date:** September, 2021 |

## Section 1: Role & Responsibilities

Details of the Committees and Working Groups in which I participated, and my attendance are available via the following link to my page on the Council website: Committees and attendance

Appointed to Joint Working Group - Mid Wales Growth Deal (but this group has not met)
Appointed to Cross-Party Working Group on the Climate Emergency

I served on the following outside organisations:
Local Education Authority representative appointed Governor for Trefonnen Primary School - attended online meetings only due to Covid 19.

## Section 2: Constituency activity

**Advice Surgery Sessions**: For the last 12 months fortnightly face to face Advice Surgeries have been replaced by scheduled phone-in sessions on a fortnightly basis due to Covid 19.

**Annual Report**: Produced, published, printed and delivered 1st annual report (October 2020) to all households, updating residents on constituency activities.

**Blog**: I have a Councillor Jake Berriman Llandrindod North Facebook page and in addition to regular posts and interactions, I continue to post monthly Blogs on my site. These cover a variety of topics as well as providing information on my whereabouts and activities each month, including my Abbeycwmhir weekly walking group.

**Local concerns**: I maintain a log of all the issues which I am approached to represent people on, including housing matters, rail servcies, unsightly land, trees and invasive weeds, school transport, business support and recovery, planning, speeding and of course pot holes.

**Championing local issues**: I have played an active role in **litter picking**, engaging both Tsgol Trefonnen and Ysgol Calon Cwmru in community litter picking events, and am in discussion with residents and Keep Wales Tidy over establishing a Town Tidy group. I have been carrying out minor pruning and **environmental improvements** across the North ward, whilst enlisting the support of the Highways team to prune trees, clear gullies

and verges, and chop back vegetation that is impeding the proper use of footpaths and install handrails. I have also been championing wider issues like the frequency of rail servcies, emergency healthcare, dentristry and the loss of valuable facilities like the driving-test centre and Barclays bank.

I remain in active dialogue with the Welsh Government over speed reduction and a **safe crossing** point on the Tremont Road (by the Tremont Park pedestrian exit), and with the Safer Routes team about a new crossing point between Tesco and Waterloo Road. I am also actively engaging residents and local policing team to establish a speed watch group.

I am working with and on behalf of two groups of residents and other agencies including Powys Council to bring back into use **land for community recreational purposes** at LonCwm Green and Tremont Park Green.

**Local to Llandrindod** was established by myself and the Llandrindod Wells Town Council Mayor last summer to directly support our town and promote community cohesion, well-being and self confidence. The Town Raffle, which concluded in May 2021, raised £5,350 directly benefiting local shops and businesses. The Childrens' Poetry Competition was so successful it is coming back this year as part of the town's summer activities programme and the 500 word short story competition culminated in a published book which has itself raised further money for good causes in the town.

**Community Fund**: I have established the Llandrindod North Ward Community Grant Fund, allocating about 5% of my allowance, to local groups benefiting people in my ward. Two awards of £100 were made in the year to support the work of Helping Our Homeless Wales and Ashfield Community Enterprise to support their efforts which directly benefited residents of Llandrindod North Ward during the Covid 19 lockdown period.

**Section 3: Learning & Development**

Details of my attendance at learning and development sessions are available via the following link to my page on the Council website:
Member development and seminars

**Section 4: Outside organisations and other activities**

I did not represent PCC on any outside organisations and have resigned my non-executive position with **The Heart of Wales Line DevCo**

# Cyngor Sir Powys
# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi manylion am weithgareddau allweddol y Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar 12 Mai, 2021. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall.

| | |
|---|---|
| **Cynghorydd:** Jake Berriman | **Ffôn:** 01597851776 |
| **Ward:** Llandrindod - Gogledd | **Ffôn symudol:** 07539222968 |
| **Sir:** Sir Faesyfed | **Ebost:** cllr.jake.berriman@powys.gov.uk |
| **Grŵp:** Democratiaid Rhyddfrydol Cymru | **Dyddiad:** Medi 2021 |

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Mae manylion y Pwyllgorau a'r Gweithgorau yr wyf wedi cymryd rhan ynddynt ynghyd â fy mhresenoldeb ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor: Pwyllgorau a phresenoldeb

Fe'm penodwyd i Gyd-weithgor Bargen Twf Canolbarth Cymru (ond nid yw'r grŵp hwn wedi cwrdd eto).
Fe'm penodwyd i'r Gweithgor Trawsbleidiol ar Newid Hinsawdd

Gwasanaethais ar y cyrff allanol canlynol:
Cynrychiolydd yr Awdurdod Addysg Leol – fe'm penodwyd yn Llywodraethwr i Ysgol Gynradd Trefonnen. Mynychais gyfarfodydd ar-lein yn unig oherwydd Covid-19.

**Adran 2: Gweithgaredd yn yr etholaeth**

**Sesiynau Cymorthfeydd Rhoi Cyngor:** Am y 12 mis diwethaf, mae Cymorthfeydd Rhoi Cyngor wyneb yn wyneb pob pythefnos wedi cael eu disodli gan sesiynau a drefnir yn ôl amserlen dros y ffôn pob pythefnos oherwydd Covid-19.

**Adroddiad Blynyddol**: Rwyf wedi llunio, cyhoeddi, argraffu a chyflwyno fy adroddiad blynyddol cyntaf (Hydref 2020) i bob aelwyd, yn diweddaru trigolion ar weithgareddau'r etholaeth.

**Blog**: Mae gennyf dudalen Facebook - Y Cynghorydd Jake Berriman Gogledd Llandrindod, ac yn ychwanegol at fy mhostiadau a rhyngweithiadau rheolaidd, rwyf yn parhau i bostio blogiau misol ar fy safle. Mae'r rhain yn trafod amrywiaeth o bynciau yn ogystal â dangos lle'r wyf wedi bod a'r hyn bues i'n ei wneud bob mis, gan gynnwys fy ngrŵp cerdded wythnosol yn Abaty cwm-hir.

**Pryderon Lleol:** Rwy'n cadw cofnod o'r holl faterion y mae pobl yn gofyn i mi eu cynrychioli. Mae'r rhain yn cynnwys materion tai, gwasanaethau rheilffordd, tir bler, coed a

| |
|---|
| chwyn ymledol, cludiant ysgol, cefnogaeth ac adferiad busnesau, cynllunio, goryrru ac wrth gwrs, tyllau yn y ffordd ac ati.<br><br>**Hyrwyddo materion lleol:** Rwyf wedi mynd ati'n weithgar i **godi sbwriel,** ymgysylltu gydag Ysgol Trefonnen ac Ysgol Calon Cymru wrth wneud digwyddiadau codi sbwriel cymunedol, ac rwyf mewn trafodaeth gyda thrigolion a Chadw Cymru'n Daclus dros sefydlu grŵp Tref Daclus. Rwyf wedi bod yn cynnal mân waith tocio a **gwelliannau amgylcheddol** ar draws ward y Gogledd, tra'n sicrhau cefnogaeth y tîm Priffyrdd i docio coed, glanhau ffosydd ac ymylon ffyrdd, a thocio planhigion sy'n tyfu ar draws llwybrau ac yn eu gwneud yn anodd mynd atynt i'w defnyddio'n gywir, gan osod rheiliau llaw. Rwyf hefyd wedi bod yn eirioli dros faterion ehangach megis pa rheolaidd yw'r gwasanaethau rheilffyrdd, materion gofal iechyd a deintyddiaeth sy'n dod i'r amlwg a cholli cyfleusterau gwerthfawr megis y ganolfan brofi trwy ffenestr car a banc Barclays.<br><br>Rwy'n parhau i gyfathrebu'n gyson â Llywodraeth Cymru ynghylch lleihau'r terfyn cyflymder a chreu **man croesi diogel** ar Heol Tremont (wrth fynedfa cerddwyr Parc Tremont). Rwyf hefyd mewn cyswllt â'r Tîm Llwybrau Diogel mewn perthynas â gosod croesfan newydd rhwng Tesco a Ffordd Waterloo. Bûm yn ymgysylltu'n weithgar gyda thrigolion a'r tîm heddlu lleol i sefydlu grŵp gwylio cyflymder.<br><br>**Y Gronfa Gymunedol**: Rwyf wedi sefydlu Cronfa Grantiau Cymunedol Ward Gogledd Llandrindod, lle rwy'n dyrannu pump y cant o'm lwfans i grwpiau lleol sy'n gwneud lles i bobl y ward.<br>Dyfarnwyd dwy wobr o £100 yn y flwyddyn i gefnogi gwaith Helpu'r Digartref Cymru a Menter Gymunedol Ashfield i gefnogi eu hymdrechion sydd wedi bod o fudd uniongyrchol i drigolion Gogledd Llandrindod yn ystod cyfnod clo Covid 19. |
| **Adran 3: Dysgu a Datblygiad**<br>Mae manylion y sesiynau dysgu a datblygu yr wyf wedi eu mynychu ar gael trwy ddilyn y ddolen ganlynol i fy nhudalen ar wefan y Cyngor:<br>Seminarau a Datblygu Aelodau |
| **Adran 4: Sefydliadau allanol a gweithgareddau eraill**<br><br>Ni chynrychiolais Gyngor Sir Powys ar unrhyw sefydliad allanol ac rwyf wedi ymddiswyddo o'm swydd anweithredol gyda **Chwmni Datblygu Rheilffordd Calon Cymru.** |